

Report of: Audit Wales

Subject: Audit Wales Report on Promoting Access to the Pembrokeshire Coast National Park**Decision Required: Yes****Recommendation**

- **Members are asked to receive, note and present any views on the Audit Wales report on Promoting Access to the Pembrokeshire Coast National Park**
- **Members are asked to agree the Management Response**

1. Key messages

The report outlines the views of Audit Wales following work undertaken to assess how the Authority promotes access to the National Park.

2. Background

2.1. Audit Wales undertakes a programme of performance auditing. As part of the Auditor General's local government studies programme in 2024-25, Audit Wales undertook a review of Promoting Access to the Pembrokeshire Coast National Park. This work was originally planned for 2023-24 but due to issues with Audit Wales was deferred to 2024-25.

The audit considered the following:

- Does the Authority have a comprehensive understanding of who uses the National Park and who does not?
- Does the Authority have a clear vision of what it needs to achieve to improve access from underrepresented groups and communities?
- Is the Authority working effectively with the right people and partners to address the barriers facing groups or communities that are underrepresented visitors to the National Park?
- Has the Authority invested sufficient resources so it can deliver long-term and preventative benefits?
- Is the Authority monitoring, evaluating and reviewing progress?

The high-level conclusion was that the:

“Authority delivers a range of activity to encourage and improve access to underrepresented groups but there are weaknesses in its approach to data collection and resourcing. “

A bilingual copy of the report is provided as annex A.

3. Financial considerations

There are no specific financial issues relating to this work, however, the audit does consider how access work is funded.

4. Risk and Compliance Considerations

This work has been undertaken as part of Audit Wales’ performance auditing work. Three recommendations are provided. These are:

1. We identified weaknesses in the Authority’s arrangements to collect and analyse visitor data consistently. To maximise the use of data it gets from interactions with visitors and programme participants, the Authority should establish a more consistent arrangement to collate and analyse demographic information, activity data, and feedback.
2. The Authority does not identify the resources required to deliver its longer-term objectives in relation to improving access. To address this, the Authority should identify the resources required to deliver its actions to improve access to the Park over the short, medium and longer term. This should recognise the risk associated with reliance on grant funding and outline how these risks will be mitigated.
3. The Authority intends to conduct a stakeholder mapping exercise. To ensure that it identifies opportunities to maximise value for money, after the mapping exercise, the Authority should assure itself that it has identified all potential opportunities for collaboration in promoting access to the park.

Officers are required to provide a Management Response in relation to the recommendations. A copy of the Management Response is included as Annex B.

Members are asked to agree the Management Response.

Audit Wales and our Internal Auditors will review how the Authority delivers the actions agreed in the Management Response.

5. Impact on our Public Sector Duties

NA

6.1 Welsh language considerations

A bilingual copy of the report is provided. The Authority ensures that it meets the relevant Welsh Language Standards when undertaking its access work.

Pembrokeshire Coast National Park Authority
Audit and Corporate Services Review Committee – 14 May 2025

6.2 Biodiversity Duty and Decarbonisation

NA

6.3 Well-being of Future Generations (Wales) Act

The Access work undertaken by the Authority supports is work to meet the requirement of the Well-Being of Future Generations Act.

7. Conclusion

Audit Wales report on Promoting Access to the Pembrokeshire Coast National Park and agree the Management Response.

Author: Tegryn Jones, Chief Executive

Hybu Mynediad at Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4706A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y cynhaliwyd yr archwiliad hwn gennym	4
Ein dyletswyddau archwilio	4
Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn	4
Pam mae hybu mynediad yn bwysig	4
Yr hyn yr edrychwyd arno a sut mae da yn edrych	5
Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliwyd yr archwiliad gennym	6
Yr hyn a ganfuwyd gennym	6
Ein hargymhellion ar gyfer yr Awdurdod	10
Atodiadau	
Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio	11

Adroddiad cryno

Pam y cynhaliwyd yr archwiliad hwn gennym

Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ('yr Awdurdod') roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- 2 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn gennym i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gallai hefyd hysbysu astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Rhoi'r sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau i hybu mynediad at y Parc Cenedlaethol (y Parc).
- 4 Esbonio pwysigrwydd pobl o bob rhan o gymdeithas yn archwilio ac yn ymweld â thirweddau cenedlaethol ac amlinellu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- 5 Sicrhau pobl bod yr Awdurdod yn annog amrywiaeth eang o wahanol ymwelwyr, yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid allweddol, a phenderfynu pa mor dda y mae'n cyflawni cyfrifoldebau statudol.

Pam mae hybu mynediad yn bwysig

- 6 Mae amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r sector elusennau wedi hysbysebu buddion manteisio ar natur. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfrifo bod gan y buddion iechyd o hamdden awyr agored yn 2021 werth o £22.7 biliwn yng Nghymru¹. Mae hyn trwy wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl o ymarfer corff. Gall hybu mynediad fod o fudd i iechyd a llesiant y cyhoedd a thrwy hynny sicrhau manteision economaidd trwy boblogaeth iachach.
- 7 Mae hybu mynediad hefyd yn helpu'r Awdurdod i weithredu o fewn ei fframwaith cyfreithiol. Un o ddau ddiben statudol yr Awdurdod² yw hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc. I gyflawni hyn, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod gweithgarwch wedi'i dargedu at y boblogaeth gyfan i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl.

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Health benefits from recreation, natural capital, UK: 2022](#)

² Deddf yr Amgylchedd 1995

- 8 Mae hybu mynediad hefyd yn helpu'r Awdurdod i gyflawni polisi a blaenoriaethau cenedlaethol. Yn 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru '[g]ynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli'.³ Cefnogwyd hyn gan Lywodraeth Cymru trwy gyllid a oedd hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth o swyddog arweiniol cenedlaethol ar gyfer hybu Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu 'i wella amrywiaeth a chydaddoldeb' mewn Parciau Cenedlaethol. Nod y swyddog arweiniol hefyd oedd cynorthwyo Parciau Cenedlaethol i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2021.
- 9 Canfu gwaith ymchwil Llywodraeth y DU⁴ bod y mwyafrif o ymweliadau â Pharciau Cenedlaethol Lloegr yn ymweliadau amlbro a wneir gan bobl sy'n gymharol well eu byd yn ariannol ac nid yn gynrychiadol o gymdeithas. Canfu hefyd bod cymunedau eraill yn ymweld â'r parciau yn llai aml. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn ac iau, pobl o'r gymuned Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl o gymunedau mwy difreintiedig.



Yr hyn yr edrychwyd arno a sut mae da yn edrych⁵

- 10 Rydym wedi mabwysiadu diffiniad eang o fynediad, gan gynnwys cyfyngiadau mynediad ffisegol a rhwystrau ehangach i fwynhau'r Parc, fel rhwystrau diwylliannol neu economaidd-gymdeithasol.
- 11 Nid ydym wedi ystyried materion eraill o fewn cylch gwaith yr Awdurdod na materion ehangach yn ymwneud â phroffil economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod, fel y ddarpariaeth o dai trwy ei swyddogaeth gynllunio.
- 12 Rydym wedi cyfyngu ein hadolygiad i adlewyrchu dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd (a adnabyddir yn gyffredin fel gwerth am arian). O ganlyniad, nid ydym wedi gwerthuso'r prosiectau a ddarparwyd gan yr Awdurdod i hybu mynediad. Nid ydym felly yn cynnig unrhyw farn ar ddigonoldeb neu natur y gweithredoedd i hybu mynediad o fewn y Parc. Roedd ein pwyslais ar y trefniadau y mae'r Awdurdod wedi eu rhoi ar waith i gyflawni ei amcanion gan gynnwys sut y gwnaeth eu cynllunio, y darparodd adnoddau ar eu cyfer ac y mae'n eu monitro. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gwaith sylweddol y mae'r Awdurdod wedi ei wneud i hybu mynediad at y Parc.

³ Llywodraeth Cymru, [Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth](#), Mai 2022

⁴ DEFRA, [Landscapes Review](#), Medi 2019

⁵ Fe'i diffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arferion gorau, neu 'yr hyn a allai fod', o gael gwell amodau.

- 13 Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiwn cyffredinol – **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth yn ei allu i annog a gwella mynediad at y Parc Cenedlaethol gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli?** I wneud hyn, ein nod oedd ateb y cwestiynau canlynol:
- A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gynhwysfawr o bwy sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol a phwy nad ydynt?
 - A oes gan yr Awdurdod weledigaeth eglur o'r hyn y mae angen iddo ei gyflawni i wella mynediad gan grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli?
 - A yw'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaethau cywir i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr wedi'u tangynrychioli â'r Parc Cenedlaethol?
 - A yw'r Awdurdod wedi buddsoddi adnoddau digonol fel y gall sicrhau buddion hirdymor ac ataliol?
 - A yw'r Awdurdod yn monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu cynnydd?
- 14 Nodir ein meini prawf archwilio yn **Atodiad 1**. Fe'u datblygwyd gan ddefnyddio ein gwybodaeth gyfunol a datganiad polisi 2021 Parciau Cenedlaethol Cymru, 'Tirweddau i Bawb'.



Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliwyd yr archwiliad gennym

- 15 Mae ein canfyddiadau wedi'u seilio ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda swyddogion a chynrychiolwyr grwpiau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau yn y Parc Cenedlaethol. Fe wnaethom hefyd ymweld â'r Parc Cenedlaethol. Mae ein canfyddiadau wedi'u cyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaed y gwaith hwn gennym yn ystod mis Awst a mis Medi 2024.



Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 16 Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod **yr Awdurdod yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i annog a gwella mynediad ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ond ceir gwendidau yn ei ddull o gasglu data a darparu adnoddau**. Rydym yn nodi isod pam y gwnaethom ddod i'r casgliad hwn.

A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddefnyddwyr?

- 17 Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gyffredinol o bwy sy'n ymweld â'r parc a'r rhwystrau posibl sydd naill ai'n atal, neu'n ei gwneud yn fwy anodd, i rai grwpiau ymweld. Ond nid yw ei ddealltwriaeth yn gynhwysfawr ac nid yw'n gwneud y defnydd gorau o wybodaeth sydd ganddo eisoes.

- 18 Nid oes gan yr Awdurdod fecanwaith canolog ar gyfer casglu data ymwelwyr. O ganlyniad, nid yw'r broses o gasglu a dadansoddi data yn gydgysylltiedig. Gallai hyn olygu nad yw bob amser yn nodi tueddiadau neu fylchau mewn data. Gallai gwneud defnydd gwell o'r data hyn mewn un mecanwaith alluogi'r Awdurdod i wneud ymyriadau ag effaith ehangach.
- 19 Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ei ddealltwriaeth o ddefnyddwyr y Parc i hysbysu ei weithgarwch. Er enghraifft, nododd gylchau yn ei ymgysylltiad â rhai cymunedau, gan gynnwys y gymuned LHDTTC+ er enghraifft. Mae hyn wedi arwain at bresenoldeb mewn digwyddiadau Balchder i hybu ymgysylltiad yr Awdurdod â'r gymuned.
- 20 Fodd bynnag, y tu allan i'r mentrau sydd ganddo ar waith ar hyn o bryd, ni all yr Awdurdod sicrhau ei hun ei fod yn gwybod pa gymunedau efallai nad yw'n ymgysylltu â nhw. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod yn ymwybodol a yw amrywiaeth lawn y boblogaeth yn ymweld â'r parc oherwydd absenoldeb data mwy cynhwysfawr. O ganlyniad, nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr chwaith o rwystrau i fynediad i'r cymunedau hyn.
- 21 Mae cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth hefyd yn bwysig i helpu i fodloni'r disgwyliadau a nodwyd gan Weinidogion Cymru uchod. Rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol i'r Awdurdod gasglu data ar gyfer yr holl ymwelwyr â'r parc, yn enwedig ymwelwyr nad ydynt yn ymgysylltu yn uniongyrchol â'r Awdurdod. Ond mae absenoldeb dull cynhwysfawr yn ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod dargedu ei weithgarwch yn effeithiol ac felly sicrhau gwerth am arian.
- 22 Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth lefel uchel o'i broffil economaidd-gymdeithasol. Mae'r Awdurdod wedi nodi amrywiaeth o rwystrau i fynediad i rai cymunedau. Fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a allai effeithio ar fynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym yn cydnabod bod hyn yn rhannol gysylltiedig â natur fyrdymor cyllid grant ar gyfer llawer o brosiectau. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi darparu rhai prosiectau, fel y 'Prosiect 1,000 diwrnod cyntaf' y bwriedir iddo gyflawni canlyniadau tymor hwy. Nod y prosiect hwn, a ddarperir gyda Chyngor Sir Penfro, yw cysylltu teuluoedd nad ydynt yn manteisio'n rheolaidd ar fannau agored â natur i wella eu llesiant. Mae deall y ffactorau hirdymor a phroffil economaidd-gymdeithasol ymwelwyr yn bwysig i helpu'r Awdurdod i dargedu ei adnoddau, gan gynnwys camau i helpu i atal rhwystrau i fynediad rhag codi neu waethygu.

A oes gan yr Awdurdod weledigaeth eglur ar gyfer gwella mynediad?

- 23 Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno ei weledigaeth ar gyfer gwella mynediad ac yn cyfathrebu hwn drwy ei gynlluniau gweithredu a strategol. Er enghraifft, mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018-2028⁶ yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i

⁶ Mabwysiadwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018-2028 gan yr Awdurdod, a Chyngor Sir Penfro.

wella cyfleoedd mynediad i ymwelwyr anabl. Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried effaith ei weledigaeth ar gyfer gwella mynediad at ei amcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn helpu i leihau'r potensial o ailadrodd a gall helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog.

- 24 Mae'r Awdurdod wedi cynnwys amrywiaeth o grwpiau yn y gwaith o lunio ei weledigaeth trwy brosiectau, arolygon rhanddeiliaid, a gweithdai. Er enghraifft, fe wnaethom arsylwi cyfranogwyr yn rhaglen 'Gwreiddiau i Adferiad' yr Awdurdod yn cael eu cynnwys yn helaeth yn y gwaith o ddylunio gweithgareddau prosiect. Nod y prosiect hwn yw galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i fwynhau'r Parc a gwella eu hiechyd meddwl. Mae cynnwys cymunedau yn helpu'r Awdurdod i ddylunio camau a fydd yn diwallu eu hanghenion ac yn lleihau'r perygl o fethu â sicrhau gwerth am arian.
- 25 Nid yw'r Awdurdod yn cynllunio fel mater o drefn darpariaeth prosiectau dros y tymor hwy i helpu i gyflawni ei weledigaeth neu ei gynlluniau corfforaethol. Mae'r Awdurdod yn cynllunio gweithgarwch ar sail amserlenni mwy cryno na'i gynlluniau corfforaethol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn rhannol oherwydd natur fyrdymor cyllid grant. Fodd bynnag, trwy fethu â chynllunio dros amserlen tymor hwy, mae'r Awdurdod mewn perygl o gymryd camau byrdymor efallai na fyddant yn sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.

A yw'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaethau i hybu mynediad?

- 26 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnwys ac ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl â phartneriaid i wella mynediad at y Parc Cenedlaethol.
- 27 Mae'r Awdurdod wedi nodi grwpiau allweddol i'w cynnwys yn y gwaith o ddylunio a chyflawni gwaith. Mae'n bwriadu ychwanegu at hyn trwy ymarfer mapio rhanddeiliaid ffurfiol. Mae mapio partneriaid a darpar bartneriaid yn lleihau'r perygl na fydd yr Awdurdod yn nodi cyfleoedd i wella mynediad a gwerth am arian drwy, er enghraifft, gyfuno adnoddau ac arbenigedd.
- 28 Mae'r Awdurdod eisoes yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella mynediad. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn cydweithio â Mind i ddarparu'r prosiect 'Gwreiddiau i Adferiad'. Mae hyn wedi cynhyrchu adborth cadarnhaol gan gyfranogwyr a swyddogion yr Awdurdod.
- 29 Mae'r Awdurdod yn galluogi cydweithrediad â thirweddau dynodedig eraill i wella mynediad. Er enghraifft, mae Swyddog Arweiniol Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu Tirweddau Dynodedig Cymru wedi'i leoli yn yr Awdurdod. Mae cynllun gweithredu'r Swyddi yn cwmpasu pob tirwedd ddynodedig. Mae hyn yn cynnig cyfle posibl ar gyfer gweithgarwch cydweithio gyda Pharciau Cenedlaethol eraill ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) i sicrhau bod yr agenda hon yn cael yr effaith fwyaf posibl.

A yw'r Awdurdod wedi darparu adnoddau yn strategol ar gyfer ei weithgarwch i hybu mynediad?

- 30 Nid yw'r Awdurdod wedi nodi sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer ei gynlluniau i wella mynediad dros y tymor hwy, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar gyllid grant byrdymor.
- 31 Rydym yn cydnabod y cyd-destun ariannol heriol y mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu ynddo a'r canlyniadau i gyrff unigol, fel yr Awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi nodi sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer ei gynlluniau i wella mynediad dros y tymor hwy. Er enghraifft, nid yw wedi nodi eto yr adnoddau sy'n ofynnol i ddarparu ei Gynllun Partneriaeth 2024-29 drafft. Mae'r Cynllun drafft yn cydnabod bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant yn ddibynol ar gyllid prosiect sydd wedi'i gyfyngu gan amser fel rheol.
- 32 Mae'r Awdurdod yn dyrannu rhywfaint o gyllid craidd i weithgareddau sy'n hybu mynediad ond yn ariannu'r gweithgarwch hwn gyda grantiau yn gyffredinol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y risgiau posibl o ddibynnu ar gyllid grant, fel y cyllid yn dod i ben heb gael ei ddisodli. Mae wedi cymryd camau i leihau'r risgiau hynny, gan gynnwys sefydlu ymddiriedolaeth elusennol a chyflogi swyddogion codi arian i gael gafael ar gyllid ychwanegol. Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau refeniw allanol i gefnogi prosiectau na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.
- 33 Fodd bynnag, trwy fethu â nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion yn y tymor hwy, mae'r Awdurdod yn cynyddu'r perygl na fydd yn bosibl eu cyflawni. Mae dull presennol yr Awdurdod hefyd yn achosi'r perygl o gymryd camau sydd wedi'u llunio gan gylchoedd cyllid grant yn hytrach nag anghenion a nodwyd. Er ein bod yn cydnabod bod hwn yn fater anodd i fynd i'r afael ag ef, yn enwedig yn y cyd-destun ariannol heriol presennol, gallai gyfyngu ar yr effaith y gallai'r Awdurdod ei chael.

A yw'r Awdurdod yn monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu cynnydd?

- 34 Mae mesur effaith rhai mentrau yn amlwg yn eithriadol o anodd. Nid yw pob ymyriad yn arwain at fesurau perfformiad y gellir eu casglu a'u hadrodd yn rhwydd, yr ydym yn ei dderbyn a'i nodi. Mae'r Awdurdod wedi dangos i arianwyr allanol bod ei fentrau, fel Gwreiddiau i Adferiad, yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gyfranogwyr trwy roi hwb i'w llesiant. Mae mesur a deall canlyniadau yn hanfodol i ddeall yr hyn sy'n gwneud mentrau yn effeithiol ac felly dangos eu gwerth am arian.
- 35 Mae'r Awdurdod yn manteisio ar wybodaeth ansoddol a meintiol i fesur effaith ei waith i gynyddu mynediad. Er enghraifft, mae'r Cynllun Cyflawni Iechyd, Llesiant a Mynediad yn nodi manylion y metrigau y bydd yr Awdurdod yn eu defnyddio i fesur effaith ei waith. Darperir adroddiadau ar gynnydd prosiectau unigol i aelodau'r Awdurdod hefyd. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau'r Awdurdod oruchwylio a chraffu ar berfformiad.

- 36 Nid oes gan yr Awdurdod ddull systematig o ddysgu gwersi o ddarpariaeth prosiectau, nac o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Cesglir adborth ar brosiectau unigol ond nid yw'n cael ei grynhoi i gynnig safbwynt cyffredinol o brofiad yr ymwelydd. Mae hyn yn cynyddu'r perygl na fydd yr Awdurdod yn nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian ei ddull.



Ein hargymhellion ar gyfer yr Awdurdod

Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer yr Awdurdod

Argymhellion

Gwella sail dystiolaeth yr Awdurdod i hysbysu ei gynllunio

- A1 Nodwyd gwendidau gennym yn nhrefniadau'r Awdurdod i gasglu a dadansoddi data ymwelwyr yn gyson. I sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r data y mae'n eu cael i ryngweithio ag ymwelwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, dylai'r Awdurdod sefydlu trefniant mwy cyson i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ddemograffig, data gweithgarwch, ac adborth.
- A2 Nid yw'r Awdurdod yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion tymor hwy o ran gwella mynediad. I fynd i'r afael â hyn, dylai'r Awdurdod nodi'r adnoddau sydd ei hangen i gyflawni ei gamau i wella mynediad at y Parc dros y byrdymor, y tymor canolig a'r tymor hwy. Dylai hyn gydnabod y risg sy'n gysylltiedig â dibynnu ar gyllid grant ac amlinellu sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru.
- A3 Mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnal ymarfer mapio rhanddeiliaid. I sicrhau ei fod yn nodi cyfleoedd i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian, ar ôl yr ymarfer mapio, dylai'r Awdurdod sicrhau ei hun ei fod wedi nodi'r holl cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio i hybu mynediad at y parc.

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn cyffredinol: A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth yn ei allu i annog a gwella mynediad at y Parc Cenedlaethol gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli?

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
2.1 A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth gynhwysfawr o bwy sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol a'r rhai nad ydynt?	2.2.1 A yw'r Awdurdod wedi dadansoddi yn ddiweddar pwy sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol? 2.1.2 A yw'r Awdurdod wedi nodi yn ddiweddar pa grwpiau neu gymunedau nad ydynt yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol? 2.1.3 A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr o'i broffil economaidd-gymdeithasol? 2.1.4 A yw'r Awdurdod wedi nodi rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr wedi'u tangynrychioli â'r Parc Cenedlaethol? 2.1.5 A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a allai effeithio ar gyfleoedd mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli?	- Mae'r Awdurdod yn gwybod pa grwpiau a chymunedau sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol. - Mae'r Awdurdod yn gwybod pa grwpiau a chymunedau nad ydynt yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol. - Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr o'i broffil economaidd-gymdeithasol. - Mae'r Awdurdod yn deall ac yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a chymunedau sy'n ymwelwyr wedi'u tangynrychioli â'r Parc Cenedlaethol. - Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor sy'n lleihau cyfleoedd mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
2.2 A oes gan yr Awdurdod weledigaeth eglur o'r hyn y mae angen iddo ei gyflawni i wella mynediad gan grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli?	2.2.1 A oes gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli? 2.2.2 A yw'r Awdurdod wedi cynnwys grwpiau neu gymunedau perthnasol yn y gwaith o lunio ei ddull? 2.2.3 A yw'r Awdurdod yn mabwysiadu dull integredig? 2.2.4 A yw'r Awdurdod yn cynllunio dros amserlen briodol? 2.2.5 A yw dull yr Awdurdod wedi'i ysgogi gan arweinyddiaeth eglur ac effeithiol?	- Mae gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. - Mae'r Awdurdod yn cynnwys grwpiau a chymunedau perthnasol yn llawn o ran helpu i lunio ei ddull. - Mae'r Awdurdod yn mabwysiadu dull integredig ac yn ystyried materion ar draws pob gwasanaeth a phob partner allweddol. - Mae gan yr Awdurdod hanes cryf o ymgysylltu rhanddeiliaid â chyfleoedd cynhwysol i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a'i ddefnyddio. - Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo ei gwaith yn weithredol ac mae hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, gwella iechyd a llesiant a lliniaru effaith tlodi. - Mae'r Awdurdod wedi gosod amrywiaeth o dargedau ar gyfer cyflawni dros amserlen briodol. - Mae gan yr Awdurdod hanes da o gyflawni camau a chynlluniau a chymryd camau unioni yn ôl yr angen. - Mae gan yr Awdurdod arweinyddiaeth eglur ac effeithiol a chaiff cynyddu mynediad at y Parc Cenedlaethol ei hybu'n gyson ac yn eglur ar y lefelau uchaf. - Mae gan yr Awdurdod dystiolaeth dda i fanteisio arni sy'n dangos gwerth Parciau Cenedlaethol ar gyfer iechyd a llesiant a'u swyddogaeth i helpu i leihau allgau cymdeithasol a lliniaru'r rhwystrau a achosir gan dlodi.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
2.3 A yw'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid iawn i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau sy'n ymwelwyr wedi'u tangynrychioli â'r Parc Cenedlaethol?	• 2.3.1 A yw'r Awdurdod wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio a chyflawni ei waith? • 2.3.2 A yw'r Awdurdod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn effeithiol? • 2.3.3 A yw'r Awdurdod yn gweithio gyda'r partneriaid iawn? • 2.3.4 A yw'r corff yn cydweithredu'n effeithiol? • 2.3.5 A yw'r Awdurdod yn dysgu gwersi o sut y mae'n gweithio gydag eraill?	• Mae'r Awdurdod yn dangos gwerth Parciau Cenedlaethol i iechyd a llesiant a'i swyddogaeth o ran helpu i leihau allgau cymdeithasol a lliniaru'r rhwystrau a achosir gan dlodi trwy gyfrannu at bolisi ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. • Mae'r Awdurdod yn teilwra cyfleoedd i bawb yng Nghymru elwa o amgylchedd naturiol a nodweddion tirwedd Parciau Cenedlaethol. • Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r bobl, y sefydliadau a'r cymunedau iawn i ddylunio gwasanaethau cynhwysfawr sy'n annog mynediad i bawb. • Mae'r Awdurdod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn effeithiol wrth ddatblygu ei raglenni gwaith i sicrhau y rhoddir cyfle cyfartal i bawb gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a'i ddefnyddio. • Mae'r Awdurdod yn agored i her a dysgu i sicrhau bod ei wasanaethau yn addas i'r diben ac yn darparu'r hyn a fwriedir.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
2.4 A yw'r Awdurdod wedi buddsoddi adnoddau digonol fel y gall sicrhau buddion hirdymor ac ataliol?	• 2.4.1 A yw'r Awdurdod wedi neilltuo adnoddau digonol i annog mynediad at barc cenedlaethol a defnydd ohono gan bobl a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli? • 2.4.2 A yw'r Awdurdod yn deall y goblygiadau hirdymor o ran adnoddau? • 2.4.3 A yw'r Awdurdod yn neilltuo adnoddau i sicrhau canlyniadau gwell dros yr hirdymor? • 2.4.4 A yw'r Awdurdod wedi gwneud gwaith modelu demograffig i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu'n briodol i ddenu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn y dyfodol?	• Mae'r Awdurdod wedi rhoi adnoddau digonol o'r neilltu i wella mynediad ac annog pobl i gael mynediad at y Parc Cenedlaethol a'i ddefnyddio. • Mae'r Awdurdod yn adolygu ei ddefnydd o adnoddau i sicrhau ei fod yn gallu targedu neilltuadau'r dyfodol ar grwpiau a chymunedau ymwelwyr sydd wedi'u tangynrychioli. • Mae'r Awdurdod wedi gwneud gwaith modelu demograffig i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu yn briodol i ddenu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn y dyfodol.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
2.5 A yw'r Awdurdod yn monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu cynnydd?	2.5.1 A yw'r Awdurdod yn manteisio ar wybodaeth ansoddol a meintiol i fesur effaith ei waith? 2.5.2 A yw aelodau'r Awdurdod yn craffu ar berfformiad yn effeithiol?	- Teilwra cyfleoedd i bawb yng Nghymru elwa o amgylchedd naturiol a nodweddion tirwedd Parciau Cenedlaethol. - Mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres o fesurau/metrigau perfformiad perthnasol sy'n caniatáu iddo farnu sut mae'n gwella mynediad at y parc cenedlaethol a defnydd ohono gan grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. - Mae'r data y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio yn caniatáu iddo ddangos effaith gadarnhaol pobl yn defnyddio'r Parc Cenedlaethol ar lesiant a chanlyniadau cymdeithasol pobl; a'r effaith ar iechyd. - Mae'r Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad yn rheolaidd ac yn cymryd camau cywiro o ganlyniad i'w waith adolygu.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Promoting Access to Pembrokeshire Coast National Park

Audit year: 2023-24

Date issued: February 2025

Document reference: 4706A2025

This document has been prepared as part of work performed in accordance with statutory functions.

In the event of receiving a request for information to which this document may be relevant, attention is drawn to the Code of Practice issued under section 45 of the Freedom of Information Act 2000. The section 45 code sets out the practice in the handling of requests that is expected of public authorities, including consultation with relevant third parties. In relation to this document, the Auditor General for Wales and Audit Wales are relevant third parties. Any enquiries regarding disclosure or re-use of this document should be sent to Audit Wales at infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh

Contents

Summary report	
Why we did this audit	4
Our audit duties	4
Our objectives for this audit	4
Why promoting access is important	4
What we looked at and what does good look like	5
Our audit methods and when we undertook the audit	6
What we found	6
Our recommendations for the Authority	10
Appendices	
Appendix 1 – audit questions and criteria	11

Summary report

Why we did this audit

Our audit duties

- 1 Pembrokehire Coast National Park Authority ('the Authority') has to put in place arrangements to get value for money for the resources it uses, and the Auditor General has to be satisfied that it has done this.
